

# Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee inquiry into Mental Health support in Higher Education](#)

MHHE 14

Ymateb gan: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)  
Response from: Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW)

---

Mae CCAUC yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch.

## Maint yr angen

Y sefyllfa bresennol o ran iechyd meddwl myfyrwyr mewn addysg uwch, ac unrhyw heriau penodol maent yn eu hwynebu o ran eu hiechyd meddwl a'u gallu i gael cymorth.

1. Mae nifer a chyfran y myfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru sy'n dod i sylw â chyflyrau iechyd meddwl wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer a chyfran y myfyrwyr yn cofrestru yn y naw prifysgol a'r tri choleg addysg bellach a reoleiddir gan CCAUC<sup>1</sup> yng Nghymru a ddatganodd gyflwr iechyd meddwl megis iselder, sgitsoffrenia neu anhwylder gorbryder wedi cynyddu o **2,065 o fyfyrwyr yn 2014/15 (1.6% o'r myfyrwyr) i 6,245 o fyfyrwyr (4.3% o'r myfyrwyr) yn 2020/21**. Mae'r ffaith bod niferoedd cynyddol o fyfyrwyr sydd wedi datgan cyflyfrau iechyd meddwl yn byw ac yn astudio mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru'n creu galw am gymorth gan brifysgolion a cholegau ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar gwasanaethau iechyd y cyhoedd presennol a mudiadau'r trydydd sector.

---

<sup>1</sup> Prifysgolion Bangor, Aberystwyth, Caerdydd, Metropolitan Caerdydd, y Brifysgol Agored yng Nghymru, De Cymru, Abertawe, y Drindod Dewi Sant, Glyndŵr Wrecsam. Colegau addysg bellach Coleg Llandrillo Menai, Coleg Gŵyr, Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot.

~~Mr Rob Humphreys~~  
Cadeirydd | Chair

~~Dr David Blaney~~  
Prif Weithredwr | Chief Executive



2. Mae adroddiad gan Universities UK [Minding our Future](#) yn amlygu bod fyfyrwyr 'are now not an elite minority', gan ddweud 'half of all young adults will access higher education by the time they are thirty. Support within universities and NHS services needs to build from a nuanced understanding of the differing identities and characteristics of individual students'<sup>1</sup>.
3. Mae strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cymru [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru](#) (2012) yn nodi:

*'Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar fyfyrwyr sy'n wynebu heriau wrth symud oddi cartref am y tro cyntaf, a/neu wrth iddynt addasu i, neu ymdopi ag, amgylchedd academiaidd. Mae gan staff colegau a phrifysgolion rôl dyngedfennol i'w chwarae i hyrwyddo'r agenda les a sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad i'r cymorth iawn, yn ôl yr angen.'*

4. Caiff rhai o'r heriau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu mewn perthynas â'u hiechyd meddwl eu hamlygu yn yr adroddiad *Minding our Future*. Gall y ffactorau canlynol gyfrannu at iechyd meddwl gwaeth yn y boblogaeth myfyrwyr:

**Daearyddol:** Mewn nifer o achosion, mae myfyrwyr yn symud i wlad sir neu hyd yn oed gwlad newydd i gofrestru yn y brifysgol. Gall hyn arwain at gofrestru gyda meddyg teulu newydd yn ardal eu prifysgol. Yn nodweddiadol mae'r rhai sy'n symud i ffwrdd i astudio'n dychwelyd adref ar ddiwedd pob tymor am nifer o wythnosau neu fisoedd.

Yng Nghymru, roedd **62,185 o fyfyrwyr israddedig amser llawn sy'n huanu o Gymru** wedi cofrestru gyda darparwyr addysg uwch y DU yn 2020/21 yr oedd 38.5% (23,925) ohonynt yn astudio'r tu allan i Gymru. Yn yr un flwyddyn roedd **84,888 o fyfyrwyr israddedig amser llawn wedi cofrestru gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru** yr oedd **38,257 (45.1%) ohonynt yn huanu o Gymru**.

**Addysgol:** Mae myfyrwyr sy'n cofrestru yn y brifysgol yn pontio i system addysg sy'n gofyn dysgu'n fwy annibynnol na'r addysgu a brofwyd ganddynt yn yr ysgol neu'r coleg.

**Gwasanaeth:** Mae llawer o fyfyrwyr wedi cyrraedd yr oedran lle mae'r gwasanaethau iechyd meddwl y maent yn eu cael yn symud o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) i wasanaethau iechyd meddwl oedolion (AMHS). Mae'r broses bontio hon yn gryn her hyd yn oed i'r rhai nad ydynt wedi newid cyfeiriad ac sy'n aros o fewn yr un gwasanaeth iechyd.

**Personol:** Mae myfyrwyr sy'n symud oddi cartref i fynychu'r brifysgol yn ysgwyddo cyfrifoldebau a phwysau ariannol a domestig. Efallai y bydd rhai hefyd yn arbrofi'n rhywiol am y tro cyntaf, yn cael perthnasoedd ac yn mynd trwy brofiad o berthynas yn chwalu.

5. A throi at rwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl y tu allan i addysg uwch, fe wnaeth adroddiad gan Universities UK<sup>2</sup> nodi'r rhwystrau canlynol i fyfyrwyr sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl:

---

<sup>2</sup> [UUK; Starting the conversation about the support of student mental health](#)

- *'more students are arriving at university with pre-existing mental health disorders. Some of these disorders in particular eating disorders and autistic spectrum disorder require effective coordination of specialist care and adjustment of the student environment'*
- *'although the NHS is starting to consider students as an atypical population, significant difficulties remain with the coordination of care between primary and specialist care and with the support provided by universities' a*
- *'as students move between GP and university services, information about their condition and treatment rarely travels with them. This means that students either need to repeat their situation several times, acting as their own case co-ordinators, and access treatment and support with incomplete information, or not access it at all. Better sharing of patient records is essential to address potential discontinuity of care'.*

A oes heriau gwahanol o ran iechyd meddwl ar gyfer gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, ac a oes unrhyw grwpiau o fyfyrwyr mewn addysg uwch y mae iechyd meddwl gwael yn effeithio'n anghymesur arnynt.

6. O ran croestoriad iechyd meddwl a nodweddion gwarchoddedig eraill<sup>3</sup> fe gadarnhaodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol A yw Cymru'n Decach 2018 *'Yn 2015, dywedodd pobl anabl bod eu hiechyd meddwl yn wael bron i dair gwaith yn fwy aml (48.0%) na phobl nad ydynt yn anabl (16.9%). Nododd pobl anabl iau hefyd gyfraddau uwch o iechyd meddwl gwael na phobl hŷn, gan amrywio rhwng 66.6% (16–24 oed) a 34.4% (75+ oed)<sup>4</sup>.* Mae'r adroddiad hefyd yn nodi, yn y boblogaeth gyffredinol, y ***'Nododd llai o ddynion (22.3%) na menywod (31.1%) eu bod yn dioddef o iechyd meddwl gwael yn 2015. Mae mwy o fenywod na dynion yn cael eu trin ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl, a allai fod yn rhannol oherwydd bod menywod yn fwy tebygol o ddatgelu problem iechyd meddwl na dynion'***. Mae'r patrwm o ran dod i sylw â chyflyrau iechyd meddwl yr un fath i fyfyrwyr benywaidd mewn addysg uwch (AU). Gwyddom fod cyfraddau hunanladdiad yn uwch ymhlith myfyrwyr gwrywaidd<sup>5</sup>. Goblygiadau'r ffaith bod dynion yn llai tebygol o ddatgelu cyflyrau iechyd meddwl na menywod yw bod angen i wasanaethau gael eu dylunio i ymgysylltu â myfyrwyr a thrin nid dim ond y myfyrwyr hynny sy'n eu ceisio'n rhagweithiol.
7. Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gallu effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl disgyblion. Yn ei Siarter Iechyd Meddwl mewn Prifysgolion mae Student Minds yn nodi *'Inequality can, in and of itself, have negative effects on mental health. There are numerous causes of this, which can*

<sup>3</sup> Y nodweddion gwarchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol. Gweler hefyd dyletswydd statudol Llywodraeth Cymru ar anfantais economaidd-gymdeithasol [Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau](#).

<sup>4</sup> [A Yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018 \(equalityhumanrights.com\)](#)

<sup>5</sup> Dyfyniadau o Universities UK [Stepchange mentally health universities](#) (Gunnell et al, 2019).

*include adverse experiences, not feeling understood or accepted, feeling actively rejected or being threatened by the surrounding culture*'.<sup>6</sup> Mae'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn nodi bod tystiolaeth o'r Arolwg o Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi canfod bod nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl difrifol oddeutu deirgwaith yn uwch ymhlith y cwintel isaf o incwm teuluol nag ymhlith y rhai yn y cwintel uchaf.<sup>7</sup>

8. Ceir tystiolaeth bod y cynnydd mewn costau byw ar hyn o bryd yn cael effeithiau negyddol ar fyfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, myfyrwyr sy'n ofalwyr a myfyrwyr â chefnidir o fod mewn gofal, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd a myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a myfyrwyr rhyngwladol. Dynododd adroddiad gan UCM yn 2022 fod codiadau mewn costau byw'n cael 'a negative impact, and 31% reporting this to be a 'major' impact'.<sup>8</sup> Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022 gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Sefydliad Polisi Addysg Uwch [Student Cost of Living Support](#) yn nodi fel a ganlyn:
  - mae defnydd o fanciau bwyd yn fwy tebygol ymhlith myfyrwyr hŷn, y rhai mewn addysg bellach, myfyrwyr anabl, a myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is;
  - mae myfyrwyr trawsryweddol ac anneuaid, yn ogystal â myfyrwyr o liw'n fwy tebygol o fod â llai na £500 y mis o incwm; ac
  - mae rhieni a gofalwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn pryderu'n eithriadol am eu gallu i ymdopi'n ariannol na myfyrwyr eraill ac yn fwy tebygol o fod wedi ceisio cymorth o nifer o ffynonellau gan gynnwys cynlluniau credyd a chardiau credyd.
9. Fe wnaeth adroddiad a gomisiynwyd gan [Student Minds](#) nodi fel a ganlyn, '*meta-analysis of health surveys that covered 94,818 participants across the UK found that lesbian, gay and bisexual people in the UK - particularly younger and older individuals - have higher prevalence of poor mental health and low wellbeing*'.<sup>9</sup> Yn 2019 fe gadarnhaodd [Advance HE](#) fel a ganlyn: '*some LGB+ and/or trans students may experience higher rates of non-continuation in studies, have specific needs around mental health support, and may face higher rates of harassment*'.<sup>9</sup>
10. Roedd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2019 yn nodi '*our evidence shows that, for many students and staff in our universities, racial harassment results in humiliation, isolation, loss of confidence and serious harm to their mental health. Our call for evidence heard how harassment both caused and worsened existing mental health conditions*'.<sup>10</sup> Mae pobl sy'n wynebu trais a cham-drin ar sail hunaniaeth yn cynnwys menywod o bob cefndir. Fe brofodd myfyrwyr a staff benywaidd yr effeithiwyd ar eu hiechyd meddwl gan drais domestig, cam-drin a thrais rhywiol effeithiau andwyol pellach o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud yn ystod y pandemig. Mae prifysgolion yn cefnogi menywod a theuluoedd sy'n byw dan yr amodau hyn.

---

<sup>6</sup> [Hughes, G. a Spanner, L. \(2019\).](#)

<sup>7</sup> [Green, H., McGinnity, A., Meltzer, H., Ford, T., a Goodman, R. \(2005\). \*Mental Health of Children and Young People in Great Britain: 2004\*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.](#)

<sup>8</sup> [Cost of Living Research June 2022 - Students and Apprentices @ NUS](#)

<sup>9</sup> [LGBTQ+ Student Mental Health: The challenges and needs of gender, sexual and romantic minorities in Higher Education](#) Student Minds, Dom Smithies a Dr Nicola Byrom

<sup>10</sup> [Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: Prifysgolion yn cael eu herio \(equalityhumanrights.com\)](#)

11. O ran hunanladdiad, mae digwyddiadau'n uwch ymhlith myfyrwyr gwrywaidd nag ydynt ymhlith myfyrwyr benywaidd<sup>11</sup>. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru a Lloegr yn dynodi fel a ganlyn: *'The student suicide rate for those aged 17 to 24 years was 1.7 per 100,000 students (25 suicide deaths) for the academic year ending 2020. This was statistically significantly lower than the rates seen in academic years ending 2017 and 2018. This is in line with the trend seen in the general population'. 'For context, the overall suicide rate in the general population (which includes higher education (HE) students) is statistically significantly higher (12.5 deaths per 100,000 general population) compared with students (3.9 deaths per 100,000 students) for the academic year ending 2017 to academic year ending 2020.'* Rydyn yn llwyr gydnabod bod un hunanladdiad yn un yn ormod.
12. Gweler hefyd y myfyrwyr a nodwyd fel rhai yr effeithiwyd yn fwy andwyol arnynt gan Covid-19 ym mharagraff 14 isod.

Yr effaith, os o gwbl, a gafodd COVID-19 yn gyffredinol ar iechyd meddwl a lles myfyrwyr ac effaith y pandemig ar y lefelau a'r math o gymorth a ddarperir gan y sector addysg uwch.

13. Mae papur briffio gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn 2021<sup>12</sup> yn awgrymu bod y pandemig yn debygol o fod wedi cael effaith fawr ar iechyd meddwl a lles y boblogaeth gyfan. Roedd y papur brifio'n nodi'r dadansoddiad canlynol o ddata:

*'survey data suggests the proportion of the population with a severe mental health problem increased from 11.7% in February 2020 to 28.1% in April 2020. Overall, mental health problems increased by 17% between February 2020 and November 2020'; a*

*'given this worsening picture for mental health among the population we would anticipate increased demand for mental health services over coming years. Modelling for England suggests the pandemic may cause a surge in referrals for such services. If these trends were replicated in Wales, additional pressures on mental health services would amount to £75 million to £98 million in 2021-22'.*

14. Effeithiwyd ar fyfyrwyr mewn addysg uwch gan bandemig a chyfyngiadau symud Covid-19, ac mae ymchwil a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos hyn. Canfu adroddiad gan y [Centre for Mental Health](#) a oedd yn gwerthuso effaith y rhaglen [Student Space](#) a ddarparodd ymyriadau dros y we i gefnogi lles meddyliol myfyrwyr dros y pandemig nad oedd yr effaith ar yr holl fyfyrwyr yn gyfartal, a bod rhai grwpiau o fyfyrwyr wedi profi heriau mwy. Y rhai a enwyd ganddo oedd:
- myfyrwyr o gymunedau lleiafrifol;
  - myfyrwyr anabl;
  - myfyrwyr rhyngwladol; a
  - myfyrwyr o grwpiau 'ehangu cyfranogiad/ mynediad'.

---

<sup>11</sup> [Stepchange: mentally healthy universities \(universitiesuk.ac.uk\)](#)

<sup>12</sup> [The NHS and the Welsh Budget: Outlook and challenges for the next Welsh Government \(2021\)](#)



15. Nid yw'n glir inni eto beth yw effeithiau parhaus a thymor hwy'r pandemig ar ymgeiswyr a myfyrwyr. Fe gyhoeddodd Academi Prydain [The COVID Decade: understanding the long-term societal impacts of COVID-19](#). Un o gasgliadau'r adroddiad oedd:

*'The pandemic and various measures taken to address it have resulted in differential mental health outcomes. Access to support for new cases and for those with pre-existing conditions has also been disrupted, in addition to services for children and young people. Both have the potential to result in long-term mental health impacts for particular groups if there is not a renewed focus on the causes and solutions for sustaining mental health across society, including by tackling the structural and root causes of inequality.'* a:

*'The consequences of lost access to education at all levels, coupled with changes to assessments, will be felt for years to come, and wholly recovering lost education is unfeasible. This has exacerbated existing socioeconomic inequalities in attainment and highlighted digital inequality. Because a high-skill economy will be essential for future prosperity and for society to thrive, it will be vital to consider whether lifelong educational opportunities are sufficiently comprehensive, diverse and flexible.'*

## **Adnabod a darpariaeth**

Pa mor effeithiol y mae darparwyr addysg uwch yn hyrwyddo ethos o iechyd meddwl a lles da cyffredinol i'r holl fyfyrwyr, ac a yw hyn yn rhan annatod o'r profiad dysgu ac o ryngweithio â staff

16. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd polisi cyntaf CCAUC i brifysgolion ar lesiant ac iechyd mewn addysg uwch yn 2013. Roedd y cyfarwyddyd yn nodi arfer cyfredol mewn addysg uwch ac yn cadarnhau bod yr holl gynlluniau ffioedd yn 2014/15 yn cynnwys cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles.<sup>13</sup> Roedd [Addysg uwch ar gyfer cenedl iach: iechyd a lles myfyrwyr](#) yn cynnwys mwy na deugain o astudiaethau achos o weithgareddau a gwasanaethau addysg uwch i hybu lles ac iechyd a chefnogi myfyrwyr gyda'u hiechyd meddwl. Yn 2021 fe gyhoeddodd ni [Addysg uwch i'r genedl: cefnogi myfyrwyr](#) gydag astudiaethau achos mwy diweddar a oedd yn ymwneud â lles ac iechyd.
17. Yn 2019, fe lansiodd CCAUC ei [Ddatganiad Polisi Lles ac Iechyd mewn AU](#) mewn cynhadledd genedlaethol. Yn 2019, fe gyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei harchwiliad: [Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun ar gyfer lles ac iechyd mewn addysg uwch](#) a oedd yn nodi:
- 'Mae CCAUC yn frwd yn gyrru cydweithredu ac mae yna ystod o gamau ymarferol a strategol y gall eu cymryd i adeiladu ar ei berthynas gadarnhaol â phartneriaid.'*
18. Yn 2019, fe wnaeth CCAUC gyllido pum prosiect lles ac iechyd arloesol cydweithredol i wella a chefnogi lles ac iechyd myfyrwyr mewn addysg uwch. Fe

---

<sup>13</sup> [W13-31HE Equality-and-Diversity-in-Higher-Education-Promoting-Mental-Health-and-Wellbeing.pdf \(hefcw.ac.uk\)](#)

wnaethom hefyd wahodd Strategaethau Lles ac Iechyd o Flwyddyn Ariannol 2020-21. Mae'r prosiectau'n mynd rhagddynt neu wedi'u gwreiddio ac yn cynnwys:

- Y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cyfrwng Cymraeg ar y we, [Myf.com](#), ar gyfer myfyrwyr â chyflyrau lles ac iechyd meddwl ysgafn neu gymedrol. Arweiniwyd y prosiect gan Brifysgol Bangor mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac fe'i lansiodd yn y Senedd ym mis Mai 2022;
- Mae [Partneriaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr De Ddwyrain Cymru](#) wedi creu 'Hyb Myfyrwyr Meddyliol Iach' i wella mynediad at amrywiaeth o gymorth gan drydydd partion a roddir gan asiantaethau iechyd a'r trydydd sector, yn ogystal â datblygu protocol cyffredin ar gyfer diffinio afiechyd meddwl, ac atgyfeiriadau iechyd critigol at bartneriaid yn y GIG, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Fe lansiodd y prosiect yn y Senedd ym mis Mehefin 2022. Mae gwasanaethau ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd/y brifysgol wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol De Cymru;
- Fe sefydlodd y Brifysgol Agored yng Nghymru bartneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam a Dysgu Oedolion Cymru i ddatblygu [modiwlau lles ac iechyd](#) ar-lein ar gyfer myfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl lefel isel;
- Fe sefydlodd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam bartneriaeth gyda Phrifysgol De Cymru ac Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i ddatblygu [presgripsiynu cymdeithasol](#) i gefnogi myfyrwyr â chyflyrau lles ac iechyd meddwl lefel isel ac i wella'i phrosesau brysbennu i'w gwneud yn bosibl rhoi cymorth yn gyflymach i fyfyrwyr.
- Mae'r prosiect [Connect](#) dan arweiniad Prifysgol Abertawe gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ymdrin ag unigrwydd ac yn cynyddu'r ymdeimlad o berthyn i gymunedau addysg uwch trwy fynd ati'n rhagweithiol i gysylltu myfyrwyr unig, dihyder â staff a myfyrwyr sy'n gweithredu fel cysylltwyr, gwasanaethau a gweithgareddau. Cyflwynwyd y prosiect i [Rwydwaith Prifysgolion Iach y DU](#) yn 2021.

19. Yn ystod y pandemig, fe ddyrannodd CCAUC gyllid ychwanegol o **£50m** gan Lywodraeth Cymru i gefnogi myfyrwyr mewn addysg uwch, gan gynnwys ar gyfer lles ac iechyd meddwl, gweler cylchlythyrau [W20/32HE](#) a [W21/04HE](#). Hefyd, fe wnaeth CCAUC, ar y cyd â'r Swyddfa Fyfyrrwyr, gyllido'r prosiect [Student Space](#) i roi cyngor a gwybodaeth arbenigol i fyfyrwyr yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Rhwng 1 Gorffennaf 2020 a 31 Gorffennaf 2022 roedd cyllid CCAUC ar gyfer Student Space yn **£220,000**. Mae Student Space wedi cael ei estyn tan 2025 gyda chyllid CCAUC yn sicrhau adnoddau cyfrwng Cymraeg.

20. Mae gan yr holl brifysgolion yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, strategaethau a chynlluniau cyflawni llesiant ac iechyd, a gyllidwyd trwy gylchlythyrau CCAUC [W20/35HE](#), [W21/22HE](#), [W22/29HE](#). Mae CCAUC wedi dyrannu cyllid o oddeutu **£6.7m** rhwng 2020/21 a 2022/23 i gefnogi strategaethau a chynlluniau cyflawni, strategaethau prifysgolion mwy diogel rhag hunanladdiad ac adolygiadau hunanasesu o wasanaethau myfyrwyr gan ddefnyddio [fframwaith asesu arbenigol y DU](#). Mae prifysgolion yng Nghymru wedi ymrwmo i ddulliau prifysgol gyfan a danategir gan [fframwaith Stepchange Universities UK](#) sy'n galw ar brifysgolion i drin iechyd meddwl fel rhywbeth sy'n sylfaenol i bob agwedd ar fywyd prifysgol, ar gyfer yr holl fyfyrwyr a'r holl staff. Bwriad CCAUC, yn amodol ar benderfyniadau gan y

Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a'r gyllideb a ddyrennir iddo, yw y dylai cyllid sy'n gysylltiedig â lles ac iechyd barhau i fod yn ddyraniad cyllid cylchol blynyddol er mwyn cynnal y gwasanaethau prifysgol.

21. Daeth dadansoddiad CCAUC o ganfyddiadau hunanasesiad prifysgolion o'u gwasanaethau myfyrwyr i'r casgliad bod 'elfennau o arfer da' a pheth 'arfer da cyffredin' a rhai 'meysydd sy'n her', gan gynnwys mewn perthynas ag adnoddau a/neu ddulliau prifysgol gyfan<sup>14</sup>. Roedd meysydd sy'n her i dair prifysgol yn ymwneud â gweithio gyda gwasanaethau'r GIG ledled Cymru.
22. Ym mis Rhagfyr 2021 fe wnaethom ddyrannu cyllid ychwanegol o **£1.3m** gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo prifysgolion i weithio gyda'u Hundebau Myfyrwyr i hyrwyddo gwasanaethau lles ac iechyd<sup>15</sup> wrth i ni ddechrau dod allan o ganlyniadau uniongyrchol y pandemig. Darparwyd gweithgareddau yn erbyn y themâu canlynol:
  - i. hybu addysg uwch ddiogel a chynhwysol, gan gynnwys mynd i'r afael â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail hunaniaeth a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl â nodweddion gwarchoddedig a phobl heb nodweddion gwarchoddedig;
  - ii. mynd i'r afael â thrais ac aflonyddu rhywiol, gan ystyried papur briffio Universities UK ar [The intersection of sexual violence, alcohol and drugs at universities and colleges](#) (Gorffennaf 2021);
  - iii. cefnogi urddas mislif ar gyfer myfyrwyr ble bynnag y maent wedi'u lleoli;
  - iv. cefnogi'r myfyrwyr hynny yr effeithiwyd yn arbennig ar eu lles a'u hiechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, gan newidiadau i fyw a dysgu a oedd yn gysylltiedig â Covid-19;
  - v. cefnogi unigrwydd ac ysgogi ymdeimlad o berthyn i'r gymuned AU/AB;
  - vi. rhoi cymorth lles yn Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru a diwylliannau amrywiol Cymru; a
  - vii. cefnogi lles ac iechyd sy'n gynhwysol, ni waeth o ba wlad y mae myfyrwyr yn hanu na beth fo'u dull neu lefel astudio, gan gynnwys gyda darparwyr addysg uwch sy'n bartneriaid.
23. Mae gan yr holl brifysgolion yng Nghymru wasanaethau myfyrwyr, gyda Phrifysgol Caerdydd, er enghraifft, yn agor ei Chanolfan Bywyd y Myfyrwyr yn ddiweddar. Mae'r holl brifysgolion yn rhoi cymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gydnabod bod cymorth ar-lein wedi dod yn fwyfwy poblogaidd a hygyrch i fyfyrwyr ers y pandemig. Mae'r holl brifysgolion yn darparu hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer staff. Mae'r holl brifysgolion yn gweithio gydag ymddiriedolaethau byrddau iechyd lleol ac ystod o fudiadau'r trydydd sector megis [Mind Cymru](#), [Papyrus](#), [Barnardo's Cymru](#), [Cymorth i Ferched Cymru](#), [Togetherall](#), [Student Minds](#) ac [Anabledd Cymru](#).

---

<sup>14</sup> Diffinnir arfer o'r fath gan Universities UK fel ELFENNAU O ARFER DA: Mae tystiolaeth yn bodoli o enghreifftiau o arfer da, ond nid yw wedi'i sefydlu ar draws y brifysgol gyfan. Gall arfer fod wedi'i ynysu o fewn timau neu adrannau penodol. ARFER DA CYFFREDIN: Ceir tystiolaeth sylweddol o arfer da a oleuwyd gan dystiolaeth ac sy'n cael ei werthuso'n dda. Mae peth o'r gwaith hwn yn digwydd ar draws y brifysgol ac yn ystyried anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr. HER FAWR: Fe wnaed cynnydd bach iawn ond mae tystiolaeth o gamau gweithredu i symud gwaith yn ei flaen.

<sup>15</sup> Cylchlythyr CCAUC [W21/39HE Covid-19 Cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer llesiant ac iechyd ar gyfer myfyrwyr addysg uwch](#)



24. Mae prifysgolion yng Nghymru'n parhau i wella ac estyn eu cymorth ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl myfyrwyr, ond nid ydynt yn hunanfodlon, gan gydnabod bod galw o du defnyddwyr gwasanaethau'n parhau i gynyddu a bod adnoddau'n derfynedig.

Pa mor effeithiol yw'r sector o ran sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hadnabod yn gynnar os oes arnynt angen cymorth unigol wedi'i dargedu.

25. Mae'r broses ceisiadau addysg uwch amser llawn trwy UCAS yn cynnwys opsiwn i ymgeiswyr ddatgan cyflwr iechyd meddwl<sup>16</sup>. Mae hyn yn galluogi prifysgolion i gysylltu ag ymgeiswyr i drafod cymorth priodol. Efallai na fydd prifysgolion yn gallu rhoi cefnogaeth lawn i ymgeiswyr a myfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i astudio; i'r gwrthwyneb mae llawer o fyfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl yn astudio'n effeithiol ac yn llwyddo mewn addysg uwch. Gweler y [Storiâu myfyrwyr](#) ar wefan [Student Space](#)<sup>17</sup>.

26. Mae prifysgolion yn cymryd camau rhagweithiol i adnabod ar adeg gynnar yn y broses ceisiadau a derbyn pa fyfyrwyr sydd wedi hunanddatgan afiechyd meddwl y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt ar ei gyfer. Er enghraifft, mae'r Coleg Brenhinol Cerdd a Drama'n gofyn drosodd a throsodd i fyfyrwyr am gyflyrau iechyd meddwl cyn mynediad, ar adeg mynediad, ar adeg sefydlu ac ar adeg dewis llety yn dilyn cael eu derbyn gan ei fod yn ymwybodol o gyndynrwydd rhai myfyrwyr i ddatgan unrhyw gyflyrau sy'n bodoli eisoes, a hwythau'n credu y gallai'r rhain gael effaith negyddol a pheryglu eu cais.

27. Mae gan Wasanaethau Myfyrwyr brosesau brysbennu i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau perthnasol mewn modd amserol. Mae gwasanaethau, er enghraifft, yn cynnwys cwnsela, cyngor ynghylch lles, mentora iechyd meddwl arbenigol, a chymorth i gael mynediad at wasanaethau allanol y maent i gyd yn cael eu hyrwyddo trwy wefannau prifysgolion: [cwnsela](#), [cyngor ynghylch lles](#) a [mentora lles](#) arbenigol.

28. Mae prifysgolion yn ymwybodol bod myfyrwyr gwrywaidd yn arbennig yn debygol o geisio cyflawni hunanladdiad hyd yn oed heb gysylltu â gwasanaethau myfyrwyr neu ymddiried mewn teulu neu ffrindiau<sup>18</sup>. Mae ymwybyddiaeth o'r myfyrwyr sy'n wynebu'r risg fwyaf yn galluogi prifysgolion i fonitro ymgysylltiad myfyrwyr â'r dysgu a'r addysgu, gwasanaethau myfyrwyr, gweithgareddau cymdeithasol ac adnoddau megis llyfrgelloedd a thechnoleg gwybodaeth mewn modd rhagweithiol i adnabod patrymau cynnar o ymddieithrio a phryderon posibl ynghylch iechyd meddwl. Rydym yn darparu arian grant i [JISC](#), gyda dyraniad o **£130k** yn 2021/22, i weithio gyda phrifysgolion i ddatblygu dulliau o ddefnyddio data, a rhannu arferion o ran defnyddio data fel dangosyddion cynnar o gadw a lles myfyrwyr. Yn 2022/23 byddwn yn dyrannu **£225k** i'r sector i barhau â'r gwaith hwn.

---

<sup>16</sup> [Sharing a mental health condition on your application | Undergraduate | UCAS](#)

<sup>17</sup> Bydd CCAUC yn darparu cyllid tan 2025, ar y cyd â'r Swyddfa Fyfyrwyr, ar gyfer y prosiect Student Space sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth ar gyfer lles ac iechyd meddwl myfyrwyr.

<sup>18</sup> Universities UK Suicide Safer Universities 'Male students are more than twice as likely to take their own lives than females'. Mae grwpiau eraill sy'n wynebu risg uwch o hunanladdiad yn cynnwys y rhai sydd wedi profi hunanladdiad, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y rhai sydd wedi cael eu cam-drin, wedi profi trawma, bwlio, gwrthdaro a myfyrwyr LHDTTC+. Gweler t.11 yn yr adroddiad).

Pa mor effeithiol y mae'r sector addysg uwch a'r GIG yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r cymorth iechyd meddwl cywir i fyfyrwyr unigol ar yr adeg ac yn y lleoliad y mae ei angen arnynt.

29. Mae'r holl brifysgolion yn gweithio gyda gwasanaethau'r GIG ac mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Partneriaeth Iechyd Meddwl De Cymru a nodwyd uchod, sy'n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro;
- Gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol Prifysgol Glyndŵr gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Cyfieithu'r ap Moving On gan Brifysgol Bangor, a gefnogwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru ac a gyflawnwyd gan Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr gwasanaethau eraill ledled Cymru (e.e., Drugaid, Cymuned Adferiad Gogledd Cymru, Recovery Cymru);
- Gwaith Prifysgol Abertawe gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau awtistiaeth integredig
- Gwaith Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda thimau Argyfwng Iechyd Meddwl y GIG i gefnogi myfyrwyr; a hefyd
- Cyfarfod Prifysgol Aberystwyth gyda phractisau meddygon teulu a'i chyswllt â gwasanaethau cymdeithasol lleol ar faterion diogelu.

30. Fel a nodwyd ym mharagraff 21 uchod, mae gweithio'n effeithiol gyda'r GIG yn her i brifysgolion, fel a nodir yng nghanllawiau Step change Universities UK<sup>19</sup>. Mae rhai heriau allweddol yn cynnwys:

- trefniadau gofal sylfaenol darniog, yn enwedig pan fo myfyrwyr yn byw ac yn astudio mewn lleoliadau gwahanol;
- rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau'r GIG a phrifysgolion yn profi'n broblemus yng Nghymru ac ar draws ffiniau; ac
- amrywioldeb mynediad at ofal eilaidd ac arbenigol sy'n arwydd o fwllch triniaeth mwy llydan mewn gofal i oedolion ifainc.

31. Dywed prifysgolion wrthym fod diffyg meini prawf neu drothwyon cyffredin ar gyfer iechyd meddwl i benderfynu pa gymorth y mae'r GIG yn gyfrifol amdano yn hytrach na phrifysgolion, gan arwain at anghysondeb ym mhroses bontio myfyrwyr lle mae gofal yn y cwestiwn, gan gynnwys i'r myfyrwyr mwyaf agored i niwed.

A oes problemau penodol o ran mynediad at gymorth iechyd meddwl y GIG, er enghraifft effaith newid meddygon teulu yn amlach; bod llawer o fyfyrwyr ar oedran lle maent yn trosglwyddo o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl oedolion; unrhyw broblemau o ran rhannu data.

32. Ceir problemau penodol gyda chael mynediad at gymorth iechyd meddwl y GIG, gan gynnwys yr enghreifftiau a nodwyd uchod, ac fel a nodwyd yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor hwn ac a ddefnyddiwyd fel penawdau ar gyfer cyflwyno'r dystiolaeth hon.

---

<sup>19</sup> Universities UK Step change: mentally health universities, p.31

33. Yn ein tyb ni nid yw strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru, [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#), yn cyfleu'r dull system gyfan gymhleth y mae ei hangen i gefnogi lles, iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, myfyrwyr fel yr ydym yn ei nodi yn yr adran isod ar strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.
34. Mewn perthynas â rhannu data, dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried yr argymhelliad gan y [Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus](#) i dreialu Pasbort Iechyd Myfyrwyr digidol y GIG, i wella parhad gofal iechyd a thriniaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n symud rhwng eu cartref a'u prifysgol o fewn Cymru a'r tu allan i Gymru, sawl gwaith y flwyddyn weithiau am fisoedd lawer ar y tro, a sicrhau bod gan fyfyrwyr reolaeth ar eu data iechyd eu hunain.
35. O ran data, gallai adolygiad gan Lywodraeth Cymru o iechyd meddwl yn y sector addysg uwch/ôl-16 ystyried, ymhlith pethau eraill, sut y mae cynllunio strategol cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys asesiadau llesiant rhanbarthol a lleol, y modd y cesglir ac y defnyddir data ar hyn o bryd, a'r modd y rhennir data, yn ystyried dysgwyr a myfyrwyr ôl-16, gan gynnwys ar adegau pontio allweddol.

Pa mor effeithiol yw gwaith y sector addysg ôl-16 ehangach i hybu iechyd meddwl da, yn enwedig o ran pontio.

36. Mae'r systemau addysg ac iechyd yn gymhleth. Maent yn gofyn strategaeth genedlaethol eglur, gref gyda chanllawiau i sicrhau bod ysgolion, colegau addysg bellach, prifysgolion, awdurdodau lleol, y GIG yng Nghymru, undebau myfyrwyr a'r trydydd sector yn cydweithio i ddiwallu anghenion iechyd meddwl a lles disgyblion, dysgwyr, myfyrwyr, prentisiaid ac ôl-raddedigion.
37. Gan bod y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi cael cydsyniad brenhinol ym mis Medi 2022, mae cyfle i greu dull mwy cydlynus gan y sector ôl-16 ar gyfer ymdrin â lles ac iechyd meddwl. Dylai strategaethau lles ac iechyd cenedlaethol yn y dyfodol ystyried y rhyngweithio rhwng ysgolion, y sector dysgu ôl-16, y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r trydydd sector i gefnogi dysgwyr, i a thrwy addysg cyn 16 ac ôl-16, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

## **Polisi, deddfwriaeth a chyllid Llywodraeth Cymru**

Pa mor effeithiol y mae trefniadau polisi, ariannu a rheoleiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector yn cefnogi iechyd meddwl myfyrwyr mewn addysg uwch, ac a oes mwy y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud.

38. Dylai strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cymru [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru](#) (2012 – 2022) a'r [cynllun cyflawni](#) gael eu diweddarau yn dilyn gwerthuso ac ymgynghori, i ystyried materion cyfredol gan gynnwys: data a thystiolaeth, effaith y pandemig, materion trawstoriad, bod bywydau staff a myfyrwyr wedi'u digideiddio'n fwy, costau byw a phwysau ariannol, a dyletswyddau economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru a ddeddfwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
39. Heblaw am sefydlu Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) a chyfeiriad at fframwaith iechyd meddwl addysg uwch ac addysg bellach, nid yw'r cynllun

cyflawni'n cyfeirio o gwbl at fyfyrwyr addysg uwch a dim ond yn nhermau ysgolion y caiff dulliau sefydliad 'cyfan' eu fframio.

40. Mae [Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru](#) yn ymrwymo i '*ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl*' ac i '*flaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl*' (t.1). Rydym yn croesawu'r ymrwymadau hyn, na ellir ond eu cyflawni trwy bartneriaethau ar draws y Llywodraeth ac ar draws sectorau a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wireddu'r uchelgeisiau hyn.
41. O ran buddsoddi, mae CCAUC yn croesawu'r cyllid o £2m a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid iechyd meddwl, ond mae'r cyllid hwn yn gorfod ymestyn i ddiwallu anghenion iechyd meddwl niferoedd o fyfyrwyr sy'n cynyddu'n barhaus fel a nodwyd ar ddechrau'r dystiolaeth hon. Mae cyllid sy'n hirdymor i sicrhau cymorth lles ac iechyd meddwl cynaliadwy ar gyfer myfyrwyr yn allweddol i system sy'n canolbwyntio ar atal a diogelwch yn hytrach na chanolbwyntio ar argyfwng.
42. Mae cyfle cyfartal yn un o ddwy flaenoriaeth mewn cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae swyddogaeth reoleiddiol CCAUC yn cynnwys cymeradwyo, neu beidio cymeradwyo, ymrwymadau mewn cynlluniau ffioedd a mynediad i gefnogi myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig<sup>20</sup>. Rydym ni o'r farn bod y cynlluniau ffioedd a mynediad cyfredol yn offerynnau heb awch ac â phŵer rheoleiddiol cyfyngedig i herio neu wella perfformiad y sector. Mae CCAUC yn mynd ati'n flynyddol i gynnal asesiadau risg ffurfiol o sefydliadau addysg uwch a reoleiddir. Mae asesiadau risg sefydliadol yn ystyried prosesau ar gyfer rheoli, llywodraethu a chefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth a phrofiad myfyrwyr.
43. Yn ychwanegol at strategaeth poblogaeth gyffredinol ar gyfer iechyd meddwl, gallai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu adolygiad cenedlaethol penodol o iechyd meddwl myfyrwyr gyda ffocws ar ddull system addysg/iechyd gyfan. Gallai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd ddarparu'r saerñaeth i gyfrannu at ddull 'system addysg ôl-16 gyfan' i fynd i'r afael â bylchau strategol ac o ran polisi mewn iechyd meddwl a lles mewn addysg ôl-16 ar gyfer staff a myfyrwyr.
- Yng nghyd-destun y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), sut olwg fyddai ar ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles mewn addysg ôl-16, a beth fyddai rôl darparwyr addysg uwch a gofal iechyd.
44. Dylai dull 'system gyfan' o ymdrin ag iechyd meddwl a lles mewn addysg ôl-16 gael ei oleuo gan werthusiad o ddulliau presennol ac adolygiad o arfer cyfredol i adeiladu ar arfer seiliedig-ar-dystiolaeth a darparu meincnod y gellir ei ddefnyddio i fesur llwyddiant.
45. Dylai dull cwbl 'system gyfan' gynnwys polisiau, blaenoriaethau a chanllawiau sy'n ymwneud â chefnogi staff yn y sector ôl-16 (gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion). Mae gweithlu sy'n iach yn feddyliol ac sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac

---

<sup>20</sup> Mae myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig yn cynnwys myfyrwyr ag anabledau, gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl

sy'n 'ymwybodol o iechyd meddwl' yn hanfodol er mwyn i staff ddarparu dysgu ac addysgu effeithiol a chefnogi anghenion myfyrwyr, lle y bo'n briodol.

46. Dylai dull ôl-16 'system gyfan' sefydlu'r [pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#), gyda'r blaenoriaethau'n cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- disgwyliadau trawslywodraethol, hirdymor ar gyfer sectorau addysg, iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi lles ac iechyd myfyrwyr yn gydweithredol;
- pwerau rheoleiddiol effeithiol ar gyfer y Comisiwn newydd i herio a chynorthwyo'r sector addysg ôl-16 i ddiwallu anghenion lles ac iechyd meddwl staff a myfyrwyr;
- cyllid hirdymor, cynaliadwy ar gyfer lles ac iechyd sy'n ystyried maint y galw ymhlith disgyblion a chwyddiant costau;
- cynllunio strategol cenedlaethol a rhanbarthol integredig sy'n ystyried myfyrwyr mewn asesiadau llesiant rhanbarthol a lleol;
- llwybrau pontio cydweithredol ac wedi'u disgrifio'n glir ar draws y system ar gyfer dysgwyr, ymgeiswyr i addysg bellach ac uwch a myfyrwyr dysgu seiliedig-ar-waith â chyflyrau iechyd meddwl i atal materion niweidiol rhag codi;
- trothwyon gofal a diffiniadau o angen, a chyfrifoldebau darparwyr addysg, y GIG, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill y cytunwyd arnynt, a ddisgrifiwyd yn eglur ac a rennir a hynny'n cael ei danategu gan egwyddor dyletsywyd gofal tuag at blant ac oedolion agored i niwed i atal sefyllfaoedd 'drws anghywir';
- cymorth o ansawdd da i fyfyrwyr a/neu atgyfeirio at ddarparwyr gofal eilaidd ac arbenigol allanol, lle y bo'n briodol;
- tegwch o ran cymorth i fyfyrwyr ar draws addysg ôl-16, gan gynnwys cydweithio teg gyda darparwyr gofal iechyd eilaidd ac arbenigol ledled Cymru a chymorth gan y rhain;
- dulliau integredig o gasglu a defnyddio data'n effeithiol ar draws y sectorau ôl-16 ac ysgolion yng Nghymru ac ar draws ffiniau lle y bo'n ofynnol, gan gynnwys protocolau rhannu data a gwybodaeth priodol ar gyfer myfyrwyr cyn ac ar ôl 16 oed;
- cydweithio gyda gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau'r trydydd sector fel y bo'n briodol;
- argaeledd gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg ar draws y system.

Dylai'r blaenoriaethau hyn gael eu tanategu a'u goleuo gan y canlynol:

- ymgynghori a chydweithio gyda dysgwyr, myfyrwyr a'u cyrff cynrychiolaidd, gan gynnwys y rhai â phrofiad personol o gyflyrau iechyd meddwl;
- gweithredu i gael gwared ar gyndynrwydd dysgwyr a myfyrwyr neu warthnod a deimlir ganddynt sy'n rhwystr i ddatgelu cyflwr iechyd meddwl mewn addysg ôl-16 yng Nghymru;
- staff sy'n cael cymorth gyda'u hiechyd meddwl a'u lles hwy eu hunain ac sydd wedi'u hyfforddi i gefnogi dysgwyr a myfyrwyr, neu eu cyfeirio at gymorth, fel y bo'n briodol.
- arfer a rennir ledled Cymru a'r DU yn fwy eang, gan ystyried cyd-destun y DU a'r cyd-destun rhyngwladol y mae addysg uwch yn gweithredu ynddynt;
- codi ymwybyddiaeth o wasanaethau lles ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, a'u hyrwyddo gan ddarparwyr ôl-16.



Sut y dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd ymdrin ag iechyd meddwl a lles myfyrwyr mewn addysg uwch, ac yn y sector addysg drydyddol ehangach

47. Dylai'r Comisiwn newydd ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddatblygu ei ddull iechyd meddwl a lles ymhellach ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch, a'r sector addysg drydyddol ehangach:
- i. cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru mewn unrhyw adolygiad o les ac iechyd yn y sector ôl-16, gan ystyried canfyddiadau ac argymhellion;
  - ii. cyfrannu at gydweithio agosach rhwng Llywodraeth Cymru, gwasanaethau'r GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, mudiadau'r trydydd sector, addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion, undebau myfyrwyr a chyrrff cynrychiolaidd eraill gan gynnwys Universities UK, Prifysgolion Cymru a Chymdeithas Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Cymru;
  - iii. ystyried y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod ei ddull a'i ymrwymiad cyllido'n hirdymor ac yn gynaliadwy;
  - iv. cyfrannu at ddatblygu strategaeth iechyd meddwl nesaf Llywodraeth Cymru a strategaethau a chynlluniau cysylltiedig eraill;
  - v. ymgynghori ar ei safbwynt ar les ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, asesu ei effaith a'i gyhoeddi, ar gyfer addysg ôl-16;
  - vi. blaenoriaethu dulliau 'system gyfan' sy'n cynnwys staff a myfyrwyr;
  - vii. cefnogi darpariaeth lles ac iechyd meddwl cyfrwng Cymraeg;
  - viii. defnyddio data a thystiolaeth, gan gynnwys adnabod yr hyn sy'n gweithio mewn sectorau eraill, i oleuo'i waith asesu risg a datblygu a gweithredu polisi;
  - ix. defnyddio prosesau rheoleiddiol i herio darparwyr addysg uwch i barhau i wneud cynnydd uchelgeisiol i ddiwallu anghenion myfyrwyr;
  - x. monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y datganiad lles ac iechyd meddwl ar gyfer addysg uwch a monitro'r modd y mae darparwyr addysg uwch yn rhoi strategaethau a chynlluniau ar waith a'u cynnydd yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt;
  - xi. parhau i weithio gyda chynghorau cyllido eraill, cyrrff y sector ar draws y DU gyfan ac addysgu uwch ryngwladol i rannu arfer gyda'r gymuned addysg uwch ehangach a dysgu oddi wrthi;
  - xii. cyhoeddi canllawiau a phapurau briffio ar les ac iechyd meddwl i ddylanwadu ar ddatblygiadau strategol a gweithredol darparwyr addysg ôl-16 a'u goleuo;
  - xiii. hyrwyddo cymorth y sector addysg ôl-16 ar gyfer lles ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, myfyrwyr i leihau unrhyw warthnod a rhwystrau i lwyddiant mewn addysg uwch.

### **Argymhellion ar gyfer newid**

A oes unrhyw argymhellion y dylai'r Pwyllgor eu gwneud

48. Mae rhai o'n hargymhellion wedi'u cynnwys yn y testun uchod ac fe'u hailadroddir yn yr adran hon. Caiff ein hargymhellion eu goleuo gan dystiolaeth ac ymchwil ar lefel y DU gyfan. Mae argymhellion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn cynnwys annog Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- i. pennu disgwyliadau trawslywodraethol, hirdymor ar sectorau addysg, iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol i gydweithio i gefnogi lles ac iechyd myfyrwyr ôl-16 mewn darparwyr yng Nghymru a sicrhau bod ei hymrwymiad i ddull 'dim drws anghywir' yn cael ei wireddu;
- ii. cynnwys y Comisiwn newydd ar adeg gynnar yn y broses o ddatblygu strategaethau iechyd meddwl a pholisïau cysylltiedig cyn ymgynghori â'r cyhoedd;
- iii. cynnwys dysgwyr, myfyrwyr a staff ôl-16 mewn strategaethau iechyd meddwl diwygiedig, gan roi sylw i ystyriaethau croestoriadol ac o ran y Gymraeg a'r cyfan yn cael ei oleuo gan brofiadau personol dysgwyr, myfyrwyr a staff;
- iv. sicrhau bod ystyriaethau i iechyd meddwl dysgwyr, myfyrwyr a staff yn cael eu sefydlu yn yr holl strategaethau perthnasol, gan gynnwys ar drais yn erbyn menywod a thrais, cam-drin ac aflonyddu ar sail hunaniaeth<sup>21</sup>;
- v. darparu buddsoddiad cynaliadwy, hirdymor i gefnogi iechyd meddwl yn y sector ôl-16; a
- vi. gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhelliad gan y [Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus](#) i dreialu Pasbort Iechyd Myfyrwyr digidol y GIG, i wella parhad gofal iechyd a thriniaeth ar gyfer myfyrwyr;

49. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru, ein prifysgolion gan gynnwys y sector ôl-16 ehangach, myfyrwyr a sefydliadau partner i wella a chynnal cymorth ar gyfer lles ac iechyd meddwl myfyrwyr yng Nghymru.

Yn gywir



**David Blaney**  
**Prif Weithredwr**

---

<sup>21</sup> [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)